

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**02/12/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**  
**Questions to the First Minister**

**Social Services Departments**

**Q11 Irene James:** What are the Welsh Assembly Government's plans for the future of social services departments in Wales?  
OAQ(3)1504(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Our vision is set out in 'Fulfilled Lives, Supportive Communities'. We are committed to maintaining a whole-family, whole-community approach. Integrated social services as part of the local authority 'family' provide the best opportunity for ensuring the highest standards of practice and are best placed to co-ordinate services for children in need.

**Y Cynllun Cymorth Ariannol**

**C12 David Lloyd:** Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hynt taliadau i bensiynwyr o dan y cynllun cymorth ariannol?  
OAQ(3)1521(FM)

**Y Prif Weinidog:** Er nad yw'r maes hwn wedi'i ddatganoli, cwrddais â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau sawl gwaith i drafod datblygu'r cynllun cymorth ariannol. Fe'm sicraodd y caiff yr aelodau y mae'r cynllun yn effeithio arnynt eu talu'n gyflym. Mae hyn yn cynnwys y taliadau uwch sy'n dod yn sgîl cyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2007 i ymestyn y cynllun.

**Convergence Funding**

**Q13 Alun Davies:** Will the First Minister give an update on the convergence funding

**Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol**

**C11 Irene James:** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dyfodol adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru?  
OAQ(3)1504(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae ein gweledigaeth yn 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' yn seiliedig ar ddull gweithredu ar gyfer teuluoedd a chymunedau cyfan. Gwasanaethau cymdeithasol integredig, fel rhan o 'deulu' awdurdodau lleol, yw'r cyfle gorau i sicrhau arferion o'r safon uchaf a chydgyssylltu gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen.

**The Financial Assistance Scheme**

**Q12 David Lloyd:** What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the progress of payments to pensioners under the financial assistance scheme? OAQ(3)1521(FM)

**The First Minister:** Although this is a non-devolved matter, I have met the Secretary of State for Work and Pensions on a number of occasions to discuss the development of the financial assistance scheme. I am assured that affected members are being paid quickly, including the enhanced payments, which follow the Government's announcement in December 2007 on extending the scheme.

**Cyllid Cydgyfeirio**

**C13 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen

programme in relation to west Wales?  
OAQ(3)1511(FM)

**The First Minister:** The 2007-13 convergence programmes are progressing well. To date, 25 per cent of the total convergence EU resources have been committed, representing a total project investment of almost £805 million, comprising European Union grant of more than £408 million, across west Wales and the Valleys.

#### **The National Library of Wales**

**Q14 Rosemary Butler:** Will the First Minister make a statement on the decision by the National Library of Wales to close on Saturdays from next April?  
OAQ(3)1505(FM)

**The First Minister:** The Welsh Assembly Government has allocated increased funding for the National Library of Wales in its draft budget for 2009-10, providing a total of £12.03 million in grant in aid. For many families especially, Saturdays is the only convenient day for them to visit the national library and explore its treasures.

#### **Manufacturing (South Wales East)**

**Q15 William Graham:** Will the First Minister make a statement concerning the future of the manufacturing industry in South Wales East?  
OAQ(3)1502(FM)

**The First Minister:** Recent announcements confirm that the manufacturing sector faces an uncertain period ahead. However, the Assembly Government is committed to working with the Welsh Manufacturing Forum in finding innovative ways to support manufacturing companies to safeguard as many jobs as possible in the sector.

cyllid cydgyfeirio yng nghyswllt y gorllewin?  
OAQ(3)1511(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae rhaglenni cydgyfeirio 2007-13 yn gwneud cynnydd da. Hyd yn hyn, mae 25 y cant o holl adnoddau cydgyfeirio'r UE wedi'u neilltuo, sy'n fuddsoddiad o £805 miliwn bron ar gyfer y prosiect, gan gynnwys grant Undeb Ewropeaidd o fwy na £408 miliwn, ar draws y gorllewin a'r Cymoedd.

#### **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

**C14 Rosemary Butler:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gau ar ddydd Sadwrn o fis Ebrill nesaf?  
OAQ(3)1505(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu mwy o arian ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10. Bydd yn cael cymorth grant o £12.03 miliwn. Yn achos llawer o deuluoedd yn arbennig, dydd Sadwrn yw'r unig ddiwrnod sy'n gyfleus iddynt ymweld â'r llyfrgell genedlaethol ac edrych ar ei thrysorau.

#### **Gweithgynhyrchu (Dwyrain De Cymru)**

**C15 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch dyfodol y diwydiant gweithgynhyrchu yn Nwyrain De Cymru?  
OAQ(3)1502(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae cyhoeddiadau diweddar yn cadarnhau bod y diwydiant gweithgynhyrchu yn wynebu cyfnod ansicr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i weithio gyda Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru er mwyn dod o hyd i ffordd arloesol o roi cymorth i gwmnïau gweithgynhyrchu gyda'r nod o ddiogelu cynifer o swyddi â phosibl yn y sector.